

Caiff chwe chymhwyster TGAU gwyddoniaeth eu dyfarnu am y tro cyntaf yr haf hwn: TGAU Bioleg, TGAU Ffiseg, TGAU Cemeg, TGAU Gwyddoniaeth (Dwyradd), TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dwyradd) a TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol).

## Beth sy'n newydd?

Mae cymwysterau TGAU newydd mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg yn disodli'r hen gymwysterau gwyddoniaeth ar wahân yn y pynciau hyn. Mae'r cymhwyster gwyddoniaeth dwyradd newydd yn disodli'r hen gymwysterau TGAU Gwyddoniaeth a TGAU Gwyddoniaeth Ychwanegol. Ychwanegwyd dau gymhwyster gwyddoniaeth gymhwysol newydd hefyd, un cymhwyster gradd unigol ac un cymhwyster dwyradd.

Bydd myfyrwyr sydd am symud ymlaen i astudio ar gyfer cymhwyster Safon UG a Safon Uwch mewn gwyddoniaeth yn astudio ar gyfer cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth (Dwyradd) neu'r cymwysterau gwyddoniaeth ar wahân. Nid bwriad y cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol yw helpu myfyrwyr i symud ymlaen i Safon UG a Safon Uwch. Yn hytrach, maent yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr o wyddoniaeth mewn cyd-destun ymarferol sy'n gysylltiedig â gwaith.

Mae'r cymwysterau TGAU gwyddoniaeth newydd yn dal i fod yn rhai unedol a haenog. Mae hyn yn golygu y gall myfyrwyr sefyll arholiadau ar gyfer unedau unigol yn ystod y cwrs; bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn sefyll arholiadau rhai unedau ar ddiwedd Blwyddyn 10. Gall myfyrwyr naill ai sefyll yr arholiad haen uwch neu'r arholiad haen sylfaen, gan ddibynnu ar y radd y maent yn anelu ati.

Bydd graddau A\* i G ar gael ar gyfer y cymwysterau TGAU gradd unigol newydd, a bydd graddfa 15 pwynt yn berthnasol i'r cymwysterau TGAU dwyradd newydd, sef A\*A\*, A\*A, AA, AB hyd at FG a GG.

## Pwy sy'n sefyll arholiadau'r cymwysterau hyn yr haf hwn?

Mae newid mawr yn y patrymau cofrestru ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd hyn o gymharu â'r hen gymwysterau. Y rheswm dros hyn yw'r newidiadau i fesurau perfformiad ysgolion ar gyfer TGAU gwyddoniaeth, a fydd yn weithredol yr haf hwn. Nid yw'r mesurau perfformiad newydd yn ei gwneud yn bosibl i gyfrif cymwysterau eraill yn lle cymwysterau TGAU. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o ysgolion yn cofrestru eu myfyrwyr ar gyfer cymwysterau TGAU gwyddoniaeth nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae'r cymwysterau TGAU dwyradd newydd yn cyfateb o ran maint i ddau gymhwyster TGAU. Felly, rydym yn cyfrif nifer y cofrestriadau ar eu cyfer ddwywaith. Mae 21,250 o fyfyrwyr wedi cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth (Dwyradd) eleni, sy'n gwneud cyfanswm o 42,500 o gofrestriadau. Mae hyn yn uwch na nifer y cofrestriadau cyfunol ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth a TGAU Gwyddoniaeth Ychwanegol mewn blynyddoedd blaenorol. Mae cynnydd wedi bod hefyd o gymharu â 2017 yn nifer y myfyrwyr sydd wedi cael eu cofrestru ar gyfer y tri chymhwyster TGAU ar wahân: Bioleg, Cemeg a Ffiseg.

## Beth mae hyn yn ei olygu i'r canlyniadau yr haf hwn?

Mae newidiadau i gymwysterau TGAU gwyddoniaeth ac i'r patrymau cofrestru ar eu cyfer yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau â chanlyniadau mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o effeithio ar y canlyniadau cyffredinol terfynol ar gyfer TGAU gwyddoniaeth; rydym yn disgwyl y bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd y canlyniadau yr haf hwn yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Gyda'r holl newidiadau hyn, bydd yn anodd gwneud cymariaethau ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn yr haf hwn, ac mae ysgolion yn debygol o weld mwy o amrywiaeth yn eu canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau TGAU gwyddoniaeth, gweler ein cerdyn **post**.

